

CYD-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID A
GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD
25 GORFFENNAF 2019

Cofnodion cyfarfod Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug Dydd Iau, 25 Gorffennaf 2019

YN BRESENNOL: Cynghorydd Hilary McGuill (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Mike Allport, Geoff Collett, Bob Connah, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, David Healey, Gladys Healey, Cindy Hinds, Kevin Hughes, Tudor Jones, Mike Lowe, Dave Mackie, Martin White, David Williams a David Wisinger

AELODAU CYFETHOLEDIG: Lynn Bartlett a David Hytch

HEFYD YN BRESENNOL: Roedd y Cynghorydd Veronica Gay yn bresennol fel sylwedydd

YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr: Janet Axworthy, Andy Dunbobbin, Carol Ellis, Ian Smith a Mr. Shaun Hingston

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg; Y Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol; Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) ac Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd)

HEFYD YN BRESENNOL: Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Swyddog Cymorth y Gwasanaethau Democrataidd

1. PENODI CADEIRYDD

Gofynnodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid am enwebiadau i benodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

PENDERFYNWYD:

Y dylid penodi'r Cynghorydd Hilary McGuill yn Gadeirydd y cyfarfod.

2. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

3. STRATEGAETH RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) yr adroddiad gan nodi mai Rhianta Corfforaethol oedd un o swyddogaethau pwysicaf y Cyngor ac roedd yn rhoi cymorth i rhwng 240 a 250 o bobl ifanc ar hyn o bryd. Cyfeiriodd yr Aelodau at y Crynodeb o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol yn yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r gwaith roedd angen ei wneud

i gryfhau a meithrin bywydau pobl ifanc. Rhoddodd wybodaeth am gynlluniau gweithredu y meysydd canlynol:-

- Y cartref
- Addysg a Dysgu
- Iechyd a Lles
- Hamdden
- Cyfleoedd gwaith
- Gadael gofal
- Llais Plant sy'n Derbyn Gofal

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd cymorth Cynghorydd Personol ar gael i bob unigolyn ifanc ac a oedd y swyddogion hyn bellach wedi dechrau ar eu swyddi. Yna, cyfeiriodd y Cadeirydd at Aura a'r cynnig o gerdyn aelodaeth i bobl ifanc am £22 y mis a oedd yn galluogi plant i gael mynediad at eu holl gyfleusterau, a gofynnodd a oedd hwn yn rhywbeth y gellid ei ystyried.

Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) petai plentyn wedi derbyn gofal am fwy nag 13 wythnos yna byddai'n gymwys i gael cymorth Cynghorydd Personol pan fyddai rhwng 18 a 25 oed, a dywedodd fod 75 o bobl ifanc sydd wedi gadael gofal yn cael cymorth ar hyn o bryd. Roedd swyddi wedi bod yn wag ac esboniodd sut roedd y plant wedi cael cymorth yn ystod y cyfnod hwnnw, ond cadarnhaodd fod y 4 swydd wedi'u llenwi erbyn hyn. Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) at gynnis y cerdyn Aelodaeth Ieuenctid gan gytuno fod hwn yn syniad da. Cadarnhaodd y byddai'n cael sgwrs am hyn gyda'r bobl ifanc.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Tudor Jones ynghylch cyfleoedd gwaith, esboniodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) fod y strategaethau a nodwyd yn yr adroddiad yn galluogi plant sy'n derbyn gofal i baratoi ar gyfer cyfleoedd gwaith cyn eu bod yn 18 oed. Cyflwynodd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) ragor o wybodaeth am y Cynllun Hwb, sef cynllun ar gyfer pobl rhwng 16 a 25 oed sy'n gadael gofal ac nad ydynt efallai'n barod eto i wneud cais am swyddi. Roedd y cynllun yn cynnig cymorth gyda sgiliau ymarferol er mwyn helpu unigolion ifanc i baratoi ar gyfer cyfweiliadau a'r byd gwaith, fel ysgrifennu CV, sut i wisgo i'r gwaith, ateb y ffôn ac arferion y gweithle, cyn iddynt gael eu rhoi mewn cysylltiad â busnesau.

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) at wasanaeth arall o'r enw ADTRAC (a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop) sy'n cynnig cymorth a hyfforddiant i'r bobl ifanc hynny roedd angen cymorth ychwanegol arnynt, gan gynnwys iechyd meddwl a phhecynnau wedi'u teilwra ar gyfer unigolion rhwng 16 a 24 oed. Roedd y gwasanaeth hwn yn ychwanegu at gynnis Cynllun Hwb.

Cynigiodd y Cynghorydd Dave Mackie y dylid cefnogi'r argymhelliad manwl yn yr adroddiad. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Kevin Hughes.

PENDERFYNWYD:

Y dylid cefnogi'r crynodeb o gamau i'w cymryd yn 2019/20 i gyflawni'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol.

4. GWELLA'R CYNNIG MEWNOL AR GYFER PLANT SYDD MEWN LLEOLIADAU Y TU ALLAN I'R SIR

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) yr adroddiad ac esboniodd fod lleoliadau y tu allan i'r sir yn un o'r materion mwyaf sy'n wynebu pob Awdurdod Lleol ar draws y wlad. Esboniodd fod dod o hyd i ofal a chymorth o ansawdd da yn Sir y Fflint yn broblem fawr ac yn her i'r Cyngor gan nad oedd digon o adnoddau ar gael i ateb y galw statudol. Roedd y Cyngor yn gwbl gefnogol ond y swm o arian a oedd yn dod i mewn i'r Cyngor oedd y gwir broblem. Cyfeiriodd yr Aelodau at dudalen 37 o'r adroddiad a oedd yn amlinellu costau'r lleoliad ac esboniodd sut roedd hyn yn cael effaith ar gyllidebau o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd llawer o waith yn cael ei wneud o fewn y portffolio, yn Sir y Fflint, Rhanbarth Gogledd Cymru ac yn ehangach, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) fod hon yn her genedlaethol ac nad oes un ateb syml i'r broblem, a bod angen sawl haen o waith er mwyn gallu darparu gwahanol atebion a chynigion i nifer cynyddol o blant ag anghenion cymhleth. Rhoddodd enghreifftiau o sut roedd cymorth yn cael ei ddarparu yn y cartref, i aelodau'r teulu, maethu a gofal preswyl. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r amrywiaeth o fentrau roedd eu hangen er mwyn ail-lunio'r cynnig a gynigir i blant a theluoedd a nodwyd bod rhoi cymorth yn fuan yn flaenoriaeth er mwyn galluogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd, hyd yn oed os nad oedd hynny bob amser yn bosibl mewn rhai achosion. Aeth ymlaen i gyfeirio'r Aelodau at dudalen 12 o'r adroddiad a rhoddodd wybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi'r tair uchelgais graidd:-

- Lleihau'n ddiogel nifer y plant y mae angen iddynt dderbyn gofal
- Rhoi cymorth i blant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau lleol o ansawdd uchel
- Gwella canlyniadau plant sy'n derbyn gofal.

Gofynnodd y Cynghorydd Mackie am esboniad pellach o'r term 'sgiliau ochrol' /'side skill' ym mhwynt 1.10 yr adroddiad. Cyfeiriodd hefyd at nifer y plant 16 oed sydd wedi cael diffyg addysg neu sy'n gwrthod addysg a dywedodd pan fyddai unigolyn ifanc yn rhoi'r gorau i dderbyn addysg roedd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar y gofawyr maeth ac yna'n rhoi straen ar y system gyfan. Roedd yn credu y dylid cyflwyno cynllun ar gyfer y bobl ifanc hyn a fyddai'n rhoi rhywbeth iddynt ei wneud os nad oeddynt mewn addysg, ac a fyddai'n rhoi gobaith iddynt i'r dyfodol.

Ymatebodd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) gan esbonio sut byddai gweithwyr 'sgiliau ochrol' yn gweithio gyda gweithwyr ieuenctid er enghraifft, gan eu bod nhw mewn sefyllfa dda i feithrin perthynas ac ennill ymddiriedaeth y bobl ifanc hyn yn fuan ac i sylwi pan fyddai'r sefyllfa'n dirywio. Roedd y swyddogion hyn eisoes yn rhan o weithlu Sir y Fflint oedd yn gweithio gyda phlant ond roedd y dull gweithredu 'sgiliau ochrol' yn eu galluogi i nodi a chynnig cymorth therapiwtig a chyfeirio plant yn ôl yr angen. Byddai hyn yn ychwanegol at eu rolau

presennol. Roedd yn cytuno â sylwadau'r Cynghorydd Mackie ynglŷn â phobl ifanc yn ymbellhau oddi wrth addysg a dywedodd fod gweithio gydag ysgolion yn allweddol ond roedd y problemau yn eang ac amrywiol iawn.

Dywedodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) fod llawer o blant Blwyddyn 10 yn ymbellhau oddi wrth addysg. Roedd swyddogion yn ystyried amryw o gynlluniau i ymgysylltu â'r bobl ifanc hyn a rhoddodd enghraifft o grŵp o bobl ifanc a oedd yn gweithio gyda phlymar er mwyn eu hannog i ddychwelyd i hyfforddiant ac addysg.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yn bosibl i'r bobl ifanc hyn gael mynediad hawdd a syml at sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar a rheoli tymer. Atebodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) gan ddweud fod nifer o swyddogion sydd wedi derbyn hyfforddiant ym maes ymwybyddiaeth ofalgar yn ymweld ag ysgolion i hyfforddi staff neu i gynnig cyrsiau i bobl ifanc ond nid oedd yn gwybod a oedd hyn yn cael ei gynnig drwy'r gwasanaeth iechyd. Roedd hyfforddiant Rheoli Tymer wedi cael ei gynnig mewn partneriaeth gyda GwE er mwyn cynorthwyo athrawon i dawelu sefyllfaoedd mewn ysgolion.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hinds at dudalen 37 o'r adroddiad lle nodwyd bod y ffigyrau wedi codi o £3m i £5m mewn 3 blynedd a gofynnodd y cwestiynau canlynol:-

- A oedd nifer y lleoliadau yn y sir yn annigonol i ateb y galw?
- A yw anghenion yr unigolion yn fwy cymhleth?
- A oedd gostyngiad wedi bod yn y cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru?

Hefyd, gofynnodd beth allai'r Aelodau ei wneud i helpu swyddogion.

Atebodd y Prif Swyddog mai 'ie oedd yr ateb i'r tri chwestiwn. Roedd nifer yr unigolion wedi cynyddu dros y tair blynedd ond roedd cyfartaledd Sir y Fflint yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru, sef 247 ar y cyfrif diwethaf, ac yn hanesyddol roedd y niferoedd rhwng 180 a 200. Roedd y rhesymau dros hyn yn gymhleth ac roedd llymder a chredyd cynhwysol yn ffactorau, ynghyd â nifer mawr o achosion lle'r oedd mabwysiadu wedi bod yn aflwyddiannus. Roedd costau lleoliadau wedi cynyddu ac roedd yn rhaid i'r Cyngor gystadlu am leoliadau, a dyna pam roedd Sir y Fflint yn gweithio i gynyddu'r cyflenwad o ofal drwy ofalwyr maeth a gyda gofal a thrwsio. Cafwyd rhywfaint o gymorth gan Lywodraeth Cymru (LIC) ond nid oedd hyn yn ddigonol i ateb y galw. Byddai cefnogaeth yr Aelodau i godi ymwybyddiaeth am y pwysau sy'n wynebu'r Cyngor o ran lleoliadau y tu allan i'r sir yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr.

Cynigiodd y Cynghorydd Hinds y dylid ysgrifennu llythyr at Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol LIC yn amlinellu pryderon y Pwyllgor ynghylch yr angen am adnoddau digonol i ateb heriau lleoliadau y Tu allan i'r Sir. Cafodd y cynnig hwn ei eilio a'i gefnogi gan y Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Geoff Collett at y cynnydd o 50% ers 2016 yn y gost o ddarparu gofal; roedd yn teimlo bod y sefyllfa yn mynd allan o reolaeth a gofynnodd a oedd disgwyl i'r costau barhau i godi. Hefyd, cyfeiriodd at gynlluniau

blaenorol fel Cychwyn Cadarn a Tai Noddfa i Ferched a gofynnodd a oedd rhagor o blant yn cael eu rhoi mewn gofal yn sgil colli'r cynlluniau hyn.

Mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf, esboniodd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) fod y term 'tu allan i'r sir' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio pob math o wasanaethau gan gynnwys plant mewn gofal preswyl yn Sir y Fflint. Ystyr 'tu allan i'r sir' yw bod gwasanaethau yn cael eu prynu y tu allan i ddarpariaeth y Cyngor. Nid oedd yn bosibl iddo ddweud i sicrwydd na fyddai'r ffigyrau hyn yn dal i godi. Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) fod rhai cynlluniau llwyddiannus yn dal i fodoli, fel Dechrau'n Deg, ac roedd cadw'r gwasanaethau hyn yn rhoi mantais i'r Cyngor dros awdurdodau eraill. Mae cael gwasanaethau da ar gyfer cymunedau dan bwysau a thargedu teuluoedd mewn perygl yn gweithio, ac un ffactor allweddol yn y mater hwn oedd lleihau nifer y plant ar gyrion gofal sy'n dod i mewn i'r system ofal.

Cyfeiriodd Mr David Hytch at yr adroddiad a dywedodd fod cydberthynas agos rhwng plant sy'n derbyn gofal a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r farn gyffredinol oedd mai ysgol prif ffrwd oedd y lle gorau ar gyfer y plant hyn os oeddynt yn gallu ymdopi ac os oedd cymorth addas ar gael yn yr ysgol honno. Cyfeiriodd at yr Uned Cyfeirio Disgyblion a gofynnodd am sicrwydd fod ysgolion ar draws Sir y Fflint yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gadw disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd; hefyd, gofynnodd faint o gymorth oedd yn cael ei ddarparu i ysgolion.

Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) fod yr allgymorth sydd ar gael yn gyfyngedig ar hyn o bryd ond dywedodd fod staff wedi gallu nodi strategaethau priodol a dulliau gwaith llwyddiannus. Roedd cyngor a chymorth yn cael ei ddarparu i ysgolion ac roedd y modd roedd y cyngor hwnnw'n cael ei ddehongli wedi bod yn llwyddiant. Hefyd, cynigiwyd darpariaeth tymor byr i ysgolion uwchradd drwy gyfrwng yr Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer nifer o sesiynau yr wythnos dros gyfnod o 12 wythnos. Cyfeiriodd hefyd at y cynnydd a wnaed ym Mhlas Derwen a fyddai'n darparu rhagor o adnoddau ac allgymorth. Mae gallu ysgolion i gadw'r disgyblion hyn yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ganddynt, ond gallai ysgolion wneud cais i'r Panel Cymedroli i gael adnoddau ychwanegol er mwyn cynorthwyo'r plentyn hwnnw. Roedd annog ysgolion i fanteisio ar y cyfleoedd hyfforddiant ac i gydweithio gyda'i gilydd hefyd yn allweddol.

Gofynnodd y Cynghorydd Kevin Hughes pa mor agos roedd y Gwasanaethau Plant yn cydweithio gyda Gwasanaethau Plant Wrecsam, Sir Ddinbych a Chonwy, ac a oedd yn bosibl iddynt rannu adnoddau. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) fod Sir y Fflint yn gweithio'n agos iawn gyda'r rhanbarth ar brosiectau penodol fel y Tîm Amlddisgyblaeth (cydweithrediad rhwng Wrecsam a Sir y Fflint) ac roedd y Datganiad Sefyllfa'r Farchnad Ranbarthol yn edrych ar wasanaethau roedd eu hangen yn lleol, yn is-ranbarthol ac yn ranbarthol. Rhoddodd enghreifftiau i'r pwyllgor. Ychwanegodd nad oedd y cyllidebau hyn yn cael eu cyfuno, yn hytrach roeddynt yn enghreifftiau o weithio ar y cyd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gladys Healey at weithwyr ieuencid a gofynnodd pa mor dda maent yn cael eu hyfforddi ac a ydynt yn ymweld ag ysgolion cynradd i siarad gyda phlant cyn iddynt gyrraedd yr ysgol uwchradd. Mewn ymateb,

dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) fod y gweithwyr ieuenctid yn rhoi cymorth i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Roedd gan Sir y Fflint dîm hynod fedrus a chymwysedig iawn a oedd yn ymgysylltu gyda phobl ifanc ar draws pob math o sefyllfaoedd ac yn rhyngweithio mewn ffordd nad oedd yn bosibl i athrawon ei wneud. Petai unigolyn ifanc yn dod atynt am gymorth ond ni fyddent yn gallu eu helpu, byddent yn cyfeirio'r unigolyn hwnnw i gael y cymorth roedd ei angen arno. Amlinellodd arbenigedd y tîm a oedd yn datblygu'n barhaus ac yn mynd i'r ysgolion i feithrin perthynas gyda disgyblion a rhoddodd wybodaeth am yr effaith gadarnhaol roedd hyn yn ei chael ar y disgyblion a'r ysgolion. Yna, cyfeiriodd at gwestiwn cynorthwyydd addysgu ac roedd o'r farn bod perygl y gallai'r dysgwyr ddod yn ddibynnol ar yr unigolyn hwnnw ac y gellid darparu cymorth Anghenion Addysgol Ychwanegol (AAY) gan yr athro yn ogystal â'r cynorthwyydd addysgu. Cyfeiriodd at waith ymchwil gan Ymddiriedolaeth Sutton a ddaeth i'r casgliad nad oedd o fudd i ddatblygiad y plentyn. Roedd athrawon yn gweithio'n hynod o galed i wella sgiliau llythrennedd eu plant. Cytunodd yr Uwch Reolwr a dywedodd fod yn rhaid i ysgolion fod yn ymwybodol o'r sefyllfa ac osgoi creu dibynniaeth. Mae Cynorthwyydd Addysgu yn ddefnyddiol iawn mewn sawl maes yn yr ysgol ond roedd cael cymorth arbenigol i'r plentyn yn allweddol.

Roedd Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg ac Ieuenctid yn cytuno'n llwyr, a chyfeiriodd at ei brofiad yn y maes fel pennaeth ysgol. Roedd y berthynas rhwng y plentyn a'r cynorthwyydd dosbarth yn gallu bod yn gymhleth ac roedd angen i'r plentyn dyfu mor annibynnol â phosibl oherwydd gallai gael ei weld fel plentyn oedd bob amser yng nghwmni oedolyn a gallai hyn beri problem yn yr ysgol uwchradd. Roedd yn hollol dderbyniol i gynorthwyydd addysgu fod ar gael mewn rhannau eraill o'r ysgol, cyn belled â'u bod hefyd ar gael i roi cymorth i'r plentyn, petai angen.

Gofynnodd y Cynghorydd Hinds a oedd cyllideb yr ysgol yn talu am y costau o ddarparu cymorth i blentyn yn ystod y cyfnod pan fyddai'r datganiad yn cael ei baratoi. Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod tystiolaeth o fantolenni diwedd blwyddyn yr ysgolion yn awgrymu bod gan yr ysgolion adnoddau digonol ar gyfer hyn. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) mai diben datganiad oedd nodi'r meysydd pwysicaf o ran angen a byddai'n anorfod fod adnoddau ychwanegol ynghlwm â'r unigolyn y cyfeiriwyd ato yn y datganiad. Gallai pob ysgol yn Sir y Fflint gyflwyno achos gerbron Panel Cymedroli er mwyn dyrannu adnoddau ychwanegol. Mae cyllidebau ysgolion hefyd yn cael eu cynhyrchu drwy ddefnyddio fformiwla sy'n cynnwys gwybodaeth ar lefel yr anghenion addysgol arbennig ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau bod cyllid digonol ar gael i gefnogi anghenion disgyblion.

Roedd y Cynghorydd David Williams yn ymwybodol o'r cyfyngiadau perfformiad ac ariannol mewn ysgolion a gofynnodd a oedd unrhyw un o'n hysgolion yn gallu addasu eu cwricwlwm i gadw'r plant hyn yn eu hysgol, gan gyflwyno cwricwlwm ar gyfer unigolion neu grwpiau bach o bobl. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) eu bod yn gallu gwneud hyn, ac mai cyfrifoldeb y Pennaeth oedd gofalu am anghenion y disgyblion yn eu hysgolion ac roedd tipyn o waith creadigol yn cael ei wneud i gwrdd ag anghenion pob plentyn. Cafodd y cwricwlwm newydd ei gynllunio o amgylch yr egwyddorion craidd ond roedd gan ysgolion fwy o ymreolaeth i ddatblygu a bodloni eu hanghenion penodol. Roedd mwy o hyblygrwydd yn yr ysgolion erbyn hyn. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr fod disgyblion yn cael mynediad at

amrywiaeth o gyrsiau ac roedd potensial i ddatblygu pecyn i gynorthwyo unigolion yn yr ysgolion.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y dylid cefnogi'r Strategaeth Cymorth a Lleoliad drafft 2019-2022; ac
- (b) Y dylid ysgrifennu llythyr, ar ran y Pwyllgor, at Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn amlinellu pryderon y Pwyllgor ynghylch yr angen am adnoddau digonol i gwrdd â'r heriau yn ymwneud â lleoliadau y Tu allan i'r Sir.

5. ASESIAD DDIGONOLRWYDD PLANT

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) yr adroddiad a oedd nodi bod cyfrifoldeb statudol i ddiweddarau'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant bob blwyddyn ac i ddatblygu Asesiad newydd bob 5 mlynedd o dan y Ddeddf Gofal Plant, ac esboniwyd hyn ym mhwynt 1.02 yr adroddiad. Roedd crynodeb o'r canlyniad ym mhwynt 1.08 yr adroddiad a rhai negeseuon positif ond roedd heriau hefyd a rhai meysydd yr oedd angen eu gwella. Talodd deyrnged i Gail Bennett a Keith Wynne a dywedodd fod gan Sir y Fflint dîm ymyrraeth gynnar gweithgar iawn yn y Gwasanaethau Plant, yn wahanol i awdurdodau eraill, gyda 12 o gynlluniau ar draws y sir a oedd wedi denu cyllid cyfalaf untro o £5m a fuddsoddwyd mewn seilwaith yn yr ysgolion ynghyd ag arian grantiau cyfalaf. Roedd ffurflen yr Asesiad wedi'i chynnwys ar ffurf Atodiad.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn adroddiad cynhwysfawr iawn ac y dylid diolch i'r rhai a oedd wedi ei baratoi. Gofynnodd a oedd rhestr ar gael o'r cwmnïau sy'n darparu cyfleusterau gofal plant yn fewnol. Cytunodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) i ddarparu'r wybodaeth hon yn dilyn y cyfarfod.

Yna, cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith mai un clwb brechwast am ddim sydd ar gael ar gyfer Bwcle i gyd, ac nad oes dim un ym Mhenarlâg nac Aston a gofynnodd beth oedd y rhesymau dros hyn. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) fod gofal plant fforddiadwy yn broblem ac yn gostus ond roedd yr adroddiad hwn yn asesu ansawdd ac effeithlonrwydd y cyfleusterau gofal plant sy'n cael eu darparu gan Sir y Fflint ac roedd y canfyddiadau wedi'u dangos ym mhwynt 1.08 yn yr adroddiad. Ychwanegodd efallai y gellid cynnwys fforddiadwyedd fel ffactor perthnasol yn y dyfodol gan ei bod yn broblem wirioneddol i rieni. Ychwanegodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid) mai dewis yr ysgolion oedd manteisio ar gynig Llywodraeth Cymru i ddarparu clybiau brechwast neu beidio; mae'r clybiau yn neilltuo 30 munud ar gyfer darparu brechwast. Y broblem sy'n wynebu ysgolion yw bod rhieni yn defnyddio'r clybiau brechwast fel cyfleuster gofal plant. Roedd rhai ysgolion yn cynnig y 30 munud olaf pan oedd y brechwast yn cael ei gynig fel yr elfen am ddim, ac os oedd angen gofal plant ar y rhieni cyn yr amser hwnnw, roedd yr ysgolion yn codi tâl am hyn. Heb os, roedd ysgolion a darparwyr yn dymuno cynnig gwasanaeth mor fforddiadwy â phosibl ond roedd yn rhaid i hyn fod yn gynaliadwy gyda'r gymhareb gywir o staff, ynghyd â'r angen i gadw at safonau, ac ati. Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) fod llwyddiant y cynnig gofal plant am ddim yn Sir y Fflint wedi bod o gymorth mawr iawn o ran

fforddiadwyedd a chynllunio gofal plant; roedd y cynllun wedi bod yn fwy llwyddiannus na'r disgwyl ac roedd cynghorau eraill yn dilyn ein model.

Gofynnodd y Cynghorydd Kevin Hughes i Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ysgrifennu llythyr ar y cyd at Gail Bennett, Rheolwr Cymorth y Blynyddoedd Cynnar i Deuluoedd, i ddiolch iddi am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y dylid cefnogi ymateb strategol y Cyngor i sicrhau gofal plant digonol, cynaliadwy o ansawdd uchel o fewn y Sir sy'n ymateb i anghenion plant a'u teuluoedd;
- (b) Y dylid cefnogi'r gwaith ac ymrwymiad parhaus i gyflawni'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, bob pum mlynedd, a'r Adroddiad Cynnydd blynyddol; ac
- (c) Y dylai Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ysgrifennu llythyr ar y cyd at Gail Bennett, Rheolwr Cymorth y Blynyddoedd Cynnar i Deuluoedd, i ddiolch iddi am yr adroddiad.

6. CYRHAEDDIAD ADDYSGOL PLANT SY'N DERBYN GOFAL YN SIR Y FFLINT

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) yr adroddiad a chyfeiriodd at y crynodeb gweithredol a oedd yn cynnwys manylion y canlyniadau. Darparwyd y diffiniad gan Lywodraeth Cymru a'r dyddiad cau oedd 16^{eg} Ionawr, 2019. Os oedd unigolyn ifanc yn derbyn gofal erbyn y dyddiad hwn, yna roedd y canlyniadau hynny yn berthnasol iddo. Yna, cyfeiriodd Aelodau at bwynt 1.02 yn yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion am y manau lle'r oedd disgyblion yn cael eu lleoli (gan gadw cynifer â phosibl mewn ysgolion prif ffrwd gyda 110 o'r 140 o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd). Yna, rhoddodd wybodaeth am y canlyniadau, cyfraddau presenoldeb a gwaharddiadau ynghyd â dyraniad y grant datblygu disgyblion sy'n cael ei ddyrannu i'r plant er mwyn i'r ysgol gael cyllid ar gyfer bwrseriaethau neu er mwyn cydweithio er budd rhagor o blant.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at dudalen 198 lle'r oedd 5 o'r plant sy'n derbyn gofal heb ennill cymwysterau cyfnod allweddol 2 a gofynnodd pa fesurau gafodd eu rhoi ar waith i gynorthwyo'r plant hyn. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) fod gwahanol fathau o gymorth yn cael eu darparu, er enghraifft llythrennedd a chymorth therapiwtig.

Nododd y Cynghorydd Dave Mackie fod y canlyniadau yn well na'r hyn a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac roedd yn gobeithio y byddai hyn yn parhau. Roedd yn credu bod y pwyllgor wedi cytuno i edrych ar hyn ar sail "Gwerth Ychwanegol" oherwydd roedd yn teimlo byddai rhoi esboniad ehangach o'r rhesymau pam nad oedd y canlyniadau mor dda yn rhoi gwell esboniad. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) mai'r fformat hwn a ddefnyddiwyd y llynedd ond y gellid cyflwyno'r adroddiad gan gynnwys "gwerth ychwanegol" yn y dyfodol. Roedd y Prif Swyddog

(Gwasanaethau Cymdeithasol) yn deall pwynt y Cynghorydd Mackie ac awgrymodd y gellid darparu ffigyrau cyffredinol yn y dyfodol ynghyd â rhai astudiaethau achos a oedd yn tynnu sylw at bwynt cychwynnol a therfynol er mwyn cyflwyno gwybodaeth ar y gwerth ychwanegol.

Dywedodd y Cynghorydd Dave Healey wrth y Pwyllgor fod Shaun Hingston, aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuencid a chynrychiolydd Cyngor Ieuencid Sir y Fflint, wedi gwneud cais i gyflwyno'r datganiad canlynol yn ei absenoldeb.

“Mae'r datganiad canlynol yn amlinellu ei farn ar yr eitemau ar yr agenda yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal a'u cyrhaeddiad addysgol. Dywed: 'Rwyf yn credu'n gryf fod y Strategaeth Cymorth a Lleoliad Ddrafft 2019-2020 yn strategaeth sy'n amlinellu'n glir yr hyn mae angen i'r Awdurdod Lleol hwn ei wneud er mwyn parhau i wneud gwaith rhagorol o ran sicrhau diogelwch, a chyrhaeddiad academaidd plant sy'n derbyn gofal. Mae'r ffigyrau a gyflwynir yn y strategaeth yn adlewyrchu gallu'r Cyngor hwn i gwrdd â'r safonau uchel mae'n eu gosod ar gyfer ei hun ac y mae'n rhaid iddo eu dilyn yn unol â'r ddeddwriaeth.

'Yr hyn sydd wedi gwneud argraff fawr arnaf yw lefel yr ymgynghori sydd wedi bod gyda phobl ifanc a'r pwyslais clir a fynegwyd gan yr Awdurdod i ofalu am y bobl ifanc hyn a sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd â'r rhai mwy ffodus. Yr unig gwestiwn yr hoffwn ei ofyn yw a fyddai'n bosibl i data'r ymgynghoriad yn ymwneud â phobl ifanc, yn Atodiad Un, gael eu dosbarthu ymhlith Aelodau'r ddau Bwyllgor. Hoffwn i'r datganiad hwn gael ei gofnodi hefyd.'

Cytunwyd y byddai'r Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) a'r Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) yn ymateb i Shaun Hingston yn dilyn y cyfarfod.

Cyfeiriodd Mr David Hytch at y cymariaethau blynyddol a dywedodd nad oedd yn teimlo eu bod yn darparu gwybodaeth ynghylch a oedd y plant wedi gallu cyflawni eu potensial llawn, y byddai'n cyfateb i 30 o blant y flwyddyn yn y cyfnod allweddol. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) fod hyn wedi cael ei ystyried, er enghraifft, faint o blant oedd wedi llwyddo yng nghyfnod allweddol 2 a 3, ac i edrych ar eu taith drwy'r system addysg, gyda dangosyddion i nodi a oedd y cyfnod pan gwnaethant gael eu rhoi mewn gofal wedi cael effaith ar eu haddysg. Awgrymodd y gellid cynnwys gwybodaeth debyg yn yr adroddiad y flwyddyn nesaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Tudor Jones at yr eirfa ac yn benodol at y grant datblygu disgyblion a oedd yn cynnwys cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim; roedd yr eirfa yn cyfeirio at 'eFSM' a gofynnodd am esboniad o'r term. Cadarnhaodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid) mai ystyr 'eFSM' yw dysgwyr sy'n gymwys am brydau am ddim gyda'r arian yn mynd i'r ysgolion ar sail bob disgybl. Cadarnhaodd fod hyn yn cyfeirio at gymhwysedd yn hytrach na nifer y plant oedd yn derbyn prydau am ddim. Hefyd, roedd swm ychwanegol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei wirio yn erbyn yr wybodaeth a oedd ar gael yn y data budd-daliadau. Roedd y Cynghorydd Jones yn pryderu bod rhai plant a oedd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ond nad oedd y rhieni yn ymwybodol o hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Mackie am ragor o wybodaeth ynghylch a fyddai prydau ysgol am ddim yn cael eu hatal oherwydd Credyd Cynhwysol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) os oedd y teulu yn bodloni'r meini prawf yn ymwneud â gwahanol fudd-daliadau, gan gynnwys Credyd Cynhwysol, yna byddai'r plant yn dal i fod yn gymwys i dderbyn prydau am ddim. Esboniodd fod y tîm Refeniw a Budd-daliadau yn ceisio gwneud pethau mor hawdd â phosibl i deuluoedd gael eu cofrestru os oeddynt yn gymwys.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y dylai'r Aelodau fynd ati i ymgysylltu fel Rhieni Corfforaethol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, gan hybu ymwybyddiaeth a herio'r ddarpariaeth gyda lleoliadau addysgol Sir y Fflint; ac
- (b) Y dylai'r Aelodau fynd ati i annog yr holl staff addysgol i hybu lles addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal o fewn sefylliadau Sir y Fflint ar lefel 'ysgol gyfan'.

7. AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN

Dywedodd y Cadeirydd y byddai newid yn nhrefn y rhaglen ac y byddai'r eitem 'Cyflwyniad gan Bobl Ifanc' yn cael ei dwyn ymlaen.

8. CYFLWYNIAD GAN BOBL IFANC

Estynnodd y Cadeirydd groeso i aelodau'r Grŵp Cyfranogi (Lleisiau Ifanc yn Codi eu Llais) a oedd wedi dod i'r cyfarfod i roi cyflwyniad gerbron y pwyllgor, sydd ynghlwm yn Atodiad 1 y cofnodion.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, i'r bobl ifanc am eu cyflwyniad. Llongyfarchodd Lynn Bartlett y bobl ifanc ar eu cyflwyniad a dywedodd y dylent fod yn falch iawn o'r hyn roeddynt wedi'u gyflawni.

Cymeradwyodd yr Aelodau y plant am eu cyflwyniad.

Gofynnodd y Cynghorydd Kevin Hughes i'r bobl ifanc beth fyddai'r Cyngor yn gallu ei wneud yn well, yn eu barn nhw. Mewn ymateb, dywedodd y bobl ifanc y dylai pobl wrando mwy arnynt.

PENDERFYNWYD:

Y dylid nodi cynnwys y cyflwyniad.

9. ADRODDIAD HUNANWERTHUSO DIOGELU MEWN ADDYSG

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yr adroddiad a chyfeiriodd at adroddiad diweddar gan Estyn ar Wasanaethau Llywodraeth Leol. Fel rhan o'r broses hon roedd Sir y Fflint wedi cyflwyno adroddiad hunanwerthuso o'n gwasanaethau addysg a hunanwerthusiad ar wahân o'r ffordd rydym yn cyflawni ein cyfrifoldebau diogelu. Roedd yr adroddiad hwnnw ynghlwm a byddai Estyn yn cyhoeddi ei adroddiad ar 9^{fed} Awst. Roedd y Prif Swyddog yn awyddus i roi sicrwydd i'r Aelodau bod gweithdrefnau cadarn yn eu lle i gyflawni diogelu. Rhoddodd wybodaeth am yr adroddiadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor

a'r rhaglen hyfforddiant a pholisïau ar gyfer ysgolion. Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy wedi gweithredu fel pâr arall o lygaid ac wedi adolygu ein Polisi Hunanwerthuso ac roeddem yn falch iawn o'r adborth a dderbyniwyd, a'r ffaith ei fod yn bodloni'r holl ofynion statudol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at bobl ifanc sy'n absennol o'r ysgol a dywedodd mai cyfrifoldeb Sir y Fflint oedd monitro hyn. Gofynnodd pa lwybr fyddai'n cael ei ddilyn petai gan rywun bryderon a phetai angen tynnu sylw'r ysgolion a'r gwasanaethau cymdeithasol at y mater. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid) fod presenoldeb yn rhan annatod o'r ysgol ac os nad oedd plentyn yn bresennol yna dylai'r ysgol gymryd cyfrifoldeb dros geisio darganfod y rhesymau dros yr absenoldeb. Roedd y Gwasanaeth Lles Addysg yn rhoi cymorth i ysgolion ac roedd gan bob ysgol Swyddog Lles Addysg a oedd yn gweithio gyda nhw i wirio'r cofrestr a byddai'r rhain o bosibl yn gwybod am y plentyn hwnnw'n barod. Yna dylai ysgolion gysylltu â'r rhieni a dylent weithredu polisi adrodd am absenoldeb ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb, gan olygu y dylai rhieni roi gwybod i'r ysgol os nad oedd y plentyn yn mynd i ddod i'r ysgol. Trwy'r ysgolion, a gyda chymorth y swyddogion, byddai unrhyw bryderon posibl yn cael eu codi'n awtomatig gyda'r Gwasanaethau Plant.

Gofynnodd y Cynghorydd Gladys Healey pa fesurau oedd wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer ymdrin ag iechyd meddwl mewn ysgolion a faint o seicolegwyr plant oedd yn Sir y Fflint. Mewn ymateb, cyfeiriodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) at waith y grŵp llywio sy'n goruchwylio iechyd meddwl. Mae aelodau'r grŵp llywio yn cynnwys gwahanol bartneriaid a chynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Roedd gan bob ysgol uwchradd swyddog CAMHS dynodedig i gyfarfod disgyblion unigol a rhoi cyngor iddynt. Lluniwyd pecyn Atal Hunan-niweidio er mwyn helpu Staff addysgu ar adeg o argyfwng a'u cyfeirio at gyswllt yn CAMHS. Rhoddodd wybodaeth am y rhaglen 5 ffordd at lesiant ac esboniodd sut roedd y rhaglen yn cael ei chyflwyno ar draws Sir y Fflint. O ran Seicolegwyr Addysgol, dywedodd fod gennym 5.5 (cyfwerth amser llawn) seicolegydd plant. Nid seicolegwyr clinigol oedd y rhain gan y byddai'r cymorth hwnnw yn cael ei roi gan y Bwrdd Iechyd.

PENDERFYNWYD:

Y dylid nodi'r adroddiad.

10. DEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU) 2018

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) a dderbyniodd gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018, ac a gaiff ei rhoi ar waith ym mis Medi 2020. Esboniodd fod angen llawer o waith i sicrhau bod ysgolion a phartneriaid yn barod a rhoddodd wybodaeth am amcanion cyffredinol y Ddeddf. Cyhoeddwyd Cod drafft sy'n amlinellu dyletswyddau gweithredol y Ddeddf ac a oedd yn amodol ar ymgynghoriad yn gynharach eleni. Lluniwyd ymateb gan y Cyngor a oedd yn cynnwys mewnbyn gan amryw o bartneriaid gan gynnwys y Cyngor Ieuencid. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ymatebion yr

ymgyngoriad ac mae disgwyl i'r Cod terfynol gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad yn yr hydref gyda'r nod o'i gyhoeddi erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019. Oherwydd yr amserlen hon, esboniodd fod y tîm wedi cael adnoddau ychwanegol i sicrhau bod cymorth di-dor ar gael i'r bobl ifanc pan ddaw'r ddeddf i rym. Lluniwyd cynllun gweddnewid ar gyfer y Cyngor, fodd bynnag, mae'r amserlen yn dynn iawn o ystyried dyddiad cyhoeddi arfaethedig y Cod terfynol.

Roedd yn destun pryder bod y Ddeddf hon wedi cael ei disgrifio gan Lywodraeth Cymru fel un niwtral o ran cost ond bydd ei goblygiadau o ran adnoddau yn ddifrifol iawn i'r Cyngor.

Yna aeth yr Uwch Reolwr ati i restru'r goblygiadau i'r Cyngor yn sgil y newidiadau hyn:-

- Er enghraifft, roedd angen cael Swyddog Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y blynyddoedd cynnar i adnabod y plant ag anghenion dysgu ychwanegol a rhoi darpariaeth ym mhob lleoliad, ac nid yw hyn yn rhywbeth sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.
- Roedd yn ofynnol i gael cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol ym mhob ysgol; yn yr achosion hynny lle mae'r pennaeth yn cyflawni'r rôl hon ar hyn o bryd, mae'n debygol y bydd yn rhaid i rywun arall ei chyflawni o ystyried y cyfrifoldebau ychwanegol fydd yn cael eu rhoi i'r ysgolion gan y Ddeddf.
- Bydd yr ystod oedran yn codi i 25 oed, gan gynnwys rhoi cymorth i bobl ifanc mewn addysg bellach; ar hyn o bryd, mae gwasanaethau yn rhoi cymorth i bobl ifanc hyd at 19 oed sy'n mynychu ysgol.
- Y ddyletswydd i gomisiynu darpariaeth arbenigol ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed; Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am hyn ar hyn o bryd. Rhoddwyd gwybodaeth am y Gweithgor a fyddai'n ystyried y mecanwaith ar gyfer ariannu'r ddarpariaeth hon. Bydd y ddyletswydd hon yn dod i rym o 2021 ymlaen.
- Byddai'r Swyddog Plant sy'n Derbyn Gofal yn gyfrifol am ysgrifennu'r Cynlluniau Datblygu Unigol – ar hyn o bryd mae'r Datganiad Anghenion Dysgu Arbennig yn cael ei ysgrifennu gan yr awdurdod lle mae'r plentyn sy'n derbyn gofal yn byw, fodd bynnag, o dan y Ddeddf newydd swyddogion Sir y Fflint fydd yn gyfrifol am y gwaith hwn.
- Gallai'r Cyngor fod yn gyfrifol am nodi anghenion dysgu ychwanegol pobl ifanc yn y ddalfa – byddai'r ddarpariaeth yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer y cyfnod pan fyddent yn cael eu rhyddhau.
- Addysg ddewisol yn y cartref – gallai'r Cyngor fod yn gyfrifol am gyllido'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol petai gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol – Nid ydym yn derbyn cyllid ar gyfer hyn ar hyn o bryd ac roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater.
- Cyngor cyfreithiol arbenigol ychwanegol i gefnogi'r Cyngor mewn achosion tribiwnlys.

- System TG ychwanegol i hwyluso'r broses newydd. Mae grŵp rhanbarthol wedi bod yn edrych ar ofynion y system a chwblhawyd astudiaeth ddichonoldeb. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod manteision system TG genedlaethol ac mae wedi bod mewn cysylltiad â'r grŵp rhanbarthol i drafod adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd hyd yma.

Roedd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Addysg yn cofio ei fod wedi bod mewn cyfarfod gyda'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid) lle dywedodd y Gweinidog Addysg y byddai cyflwyno'r Ddeddf yn niwtral o ran cost. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, roedd disgwyl i gostau'r Cyngor fod tua £500,000. Mae Llywodraeth Cymru eisiau deddfu i drosglwyddo'r cyfrifoldeb i awdurdodau lleol ond gyda'r cyfrifoldeb hwnnw roedd angen yr adnoddau i dalu amdano.

Diolchodd y Cynghorydd David Healey i'r Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) am ei hadroddiad ac am dynnu sylw at y goblygiadau ariannol. Roedd yn cytuno ag argymhelliad yr adroddiad y dylid codi'r goblygiadau ariannol gyda Gweithgor Trawsbleidiol y Cyngor ond dywedodd fod y Cyngor yn dal i fod mewn sefyllfa o lymder cyffredinol a oedd yn debygol o barhau am gyfnod amhenodol ac felly roedd angen cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylai hi, ar y cyd â Chadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuencid, ysgrifennu llythyr at y Gweinidog Addysg yn amlinellu pryderon y Pwyllgor ynghylch goblygiadau'r Ddeddf o ran adnoddau'r Awdurdod Lleol a'r ysgolion.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y dylid nodi'r adroddiad;
- (b) Y dylai'r Aelodau godi ymwybyddiaeth Gweithgor Trawsbleidiol y Cyngor am y pwysau ariannu posibl o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth; ac
- (c) Y dylid ysgrifennu llythyr, ar ran y Pwyllgor, at Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru yn amlinellu pryderon y Pwyllgor ynghylch goblygiadau'r Ddeddf o ran adnoddau'r Awdurdod Lleol ac ysgolion.

11. PRESENOLDEB AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol yn y cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.16 pm)

.....
Cadeirydd